**Rhif: WG32108**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Cam 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – Agweddau yn Ymwneud â'r Gweithlu

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mehefin 2017
Camau i'w cymryd: 7 Awst 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am agweddau yn ymwneud â'r gweithlu yng ngham 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gan gynnwys cyfyngu ar y defnydd o gontractau oriau heb eu gwarantu mewn gwasanaethau cymorth cartref; amlinellu amser teithio ac amser gofal wrth drefnu cymorth cartref; cofrestru gweithwyr gofal cartref a sut i fynd i'r afael â'r prinder rheolwyr gofal cymdeithasol cofrestredig. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon, a'i dychwelyd erbyn hanner nos ar y dyddiad cau. Dylid anfon yr ymateb i:<br><br>Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth<br>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Fel arall, mae'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan (https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/) a gellir ei hanfon atom, erbyn hanner nos ar y dyddiad cau, drwy ebost i: RISCAct2016@wales.gsi.gov.uk |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon ar ffurf MS Word, mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Reoleiddio'r Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>http://www.lawcom.gov.uk/project/regulation-of-health-and-social-care-professionals/<br><br>Ymchwil Prifysgol Fetropolitan Manceinion: "Y ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref."<br>http://llyw.cymru/statistics-and-research/factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers/?skip=1&lang=cy<br><br>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: "Dogfen ymgynghori ynghylch y gweithlu gofal cartref: gwella'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr Gofal Cartref yng Nghymru" a'r Dadansoddiad o'r Ymatebion a Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog<br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/y-gweithlu-gofal-cartref<br>http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/domiciliarycare/?skip=1&lang=cy<br><br>Canllawiau'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus: "Egwyddorion a chanllawiau ar ddefnyddio trefniadau oriau heb sicrwydd yn briodol o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus datganoledig yng Nghymru" |

http://publicservicesstaffcommission.gov.wales/guidance-and-reports/principles-guidance-appropriate-use-non-guaranteed-hours-arrangements?skip=1&lang=cy

Canllawiau Gwerth Cymru: “Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi”
http://llyw.cymru/docs/dpsp/publications/valuewales/170502-ethical-cy.pdf

**Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad: Gweler uchod.

Ebost: RISCAct2016@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 0604400

**Diogelu data**

Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Ymgynghoriad ynghylch Cam 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – Agweddau yn Ymwneud â'r Gweithlu**

## 1. Cefndir

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Pasiwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015 a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 18 Ionawr 2016. Mae'n diwygio'r trefniadau rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Deddf 2016 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno nifer o is-ddeddfwriaethau drwy wneud rheoliadau, cyhoeddi canllawiau a chyflwyno codau ymarfer. Yn ychwanegol at hyn, mae Gofal Cymdeithasol Cymru ("GCC") yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal rheolau ar gyfer rheoleiddio'r gweithlu.

Mae Deddf 2016 yn cael ei gweithredu mewn tri cham sy'n gorgyffwrdd:

- **Cam 1 (2016/17)** – Roedd y cam hwn yn cynnwys rheoliadau yn ymwneud â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu sydd eu hangen o dan y Ddeddf. Daeth y rheoliadau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017. Ochr yn ochr â'r rhain, datblygodd GCC y rheolau a'r gweithdrefnau i reoli'r broses o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu sydd wedi cael eu gweithredu er 3 Ebrill 2017.

  Mae dolenni cyswllt yn arwain at bob un o'r rheoliadau cam 1 hyn i'w gweld drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu GCC:
  https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau

- **Cam 2 (2017/18)** – Mae'r cam hwn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol mewn lleoliadau gofal cartref a gofal preswyl i oedolion; lleoliadau gofal preswyl i blant; llety diogel i blant a Chanolfannau Preswyl i Deuluoedd. Mae'r rhain yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (2 Mai – 25 Gorffennaf), byddant yn cael eu mireinio a'u rhoi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr hydref, a disgwylir y byddant yn dod i rym yn Ebrill 2018.

  Mae'r ymgynghoriad i'w weld yma:
  https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cam-2-implementation-regulation-and-inspection-social-care-wales-act-2016.

  Mae Cam 2 hefyd yn cynnwys y rheoliadau a'r cynigion drafft yn ymwneud â'r gweithlu sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

- **Cam 3 (2018/19)** - Mae'r cam hwn yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol yn ymwneud â'r gofynion a'r safonau a ddisgwylir gan ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol mewn: Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu; Gwasanaethau Maethu;

Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Cysylltu Bywydau); a Gwasanaethau Eiriolaeth. Bydd rheoliadau yng ngham 3 hefyd yn ceisio adeiladu ar ddarpariaethau'r Trosolwg o'r Farchnad yn Rhan 7 o Ddeddf 2016.

Mae grwpiau technegol yn cael eu sefydlu ar hyn o bryd i helpu i ddatblygu'r rheoliadau hyn yr ymgynghorir arnynt yng ngwanwyn/haf 2018 ac a fydd yn cael eu rhoi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn diwedd y flwyddyn honno. Byddant yn dod i rym yn Ebrill 2019, felly bydd pob system dan y Ddeddf yn weithredol erbyn y dyddiad hwn.

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Gweithlu Gofal Cartref**

Yn haf 2015 comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil cynradd ac eilaidd, drwy Gyngor Gofal Cymru fel yr oedd ar y pryd, i'r cysylltiadau posibl rhwng telerau ac amodau gweithwyr gofal cartref a safon y gofal. Nod yr ymchwil, a gynhaliwyd gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion, oedd asesu i ba raddau y mae telerau ac amodau gwaith gweithwyr gofal yn effeithio ar safon y gofal cartref sy'n cael ei ddarparu. Roedd amcanion yr ymchwil yn cynnwys nodi ffactorau a allai gael dylanwad – cadarnhaol a negyddol – ar unigolion wrth iddynt ddewis cychwyn gweithio ym maes gofal cartref, a pharhau i weithio yn y maes, a nodi i ba raddau y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar safon y gofal a'r cymorth a ddarperir. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru yn Ionawr 2016, a chyhoeddwyd y fersiwn llawn ym Mawrth 2016[1].

Yn dilyn canlyniadau cychwynnol yr ymchwil hwn cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch y gweithlu gofal cartref rhwng 18 Ionawr a 15 Ebrill 2016 - "Dogfen ymgynghori ynghylch y gweithlu gofal cartref: gwella'r gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr Gofal Cartref yng Nghymru"[2]. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys ymyriadau posibl yn ymwneud nid yn unig â chontractau dim oriau, ond hefyd â meysydd eraill megis cydymffurfio â'r gofynion isafswm cyflog, amser teithio, "byrhau galwadau[3]" ac iechyd a diogelwch. Cafwyd 108 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan nifer o wahanol randdeiliaid a phartïon sydd â diddordeb gan gynnwys gofalwyr, gweithwyr gofal cartref, darparwyr gwasanaeth, comisiynwyr, undebau llafur a chyrff cynrychioladol. Er bod cefnogaeth gyffredinol i lawer o'r syniadau a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, y brif neges oedd bod angen gweithredu mewn sawl ffordd er mwyn gwella'r gallu i recriwtio a chadw staff. Roedd y camau gweithredu hyn yn cynnwys cadarnhau cydymffurfiad â'r gofynion presennol megis yr isafswm cyflog cenedlaethol; gwneud prosesau'n fwy tryloyw – er enghraifft gwahaniaethu'n glir rhwng amser teithio ac amser galw – a dal i chwilio am gyfleoedd i sefydlu gofal cartref fel gyrfa hirdymor ddeniadol, sy'n cael ei chefnogi ac sy'n rhoi llawer o foddhad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Nhachwedd 2016 ynghyd â datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog[4] a oedd

[1] Ymchwil Prifysgol Fetropolitan Manceinion "Y ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref" – cyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2016 http://llyw.cymru/statistics-and-research/factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers/?skip=1&lang=cy

[2] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/y-gweithlu-gofal-cartref

Mae byrhau galwadau'n digwydd pan fydd galwadau'n cael eu cwtogi'n systematig oherwydd nad oes gan weithwyr gofal ddigon o amser, neu ddim amser, i deithio rhwng galwadau.

[4] 28 Tachwedd 2016 - http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/domiciliarycare/?skip=1&lang=cy

yn amlinellu nifer o gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu datblygu, gan gynnwys ei hymrwymiad i gymryd rhagor o gamau i gyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau mewn gofal cartref, er mwyn gwella'r gallu i recriwtio a chadw staff a chael effaith gadarnhaol ar safon y gofal a'r cymorth a ddarperir. Yn ystod cam 1 y broses o weithredu Deddf 2016, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch rheoliadau drafft[5] a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth gyhoeddi faint o'i weithwyr oedd ar bob math o drefniant contract, gan gynnwys contractau oriau heb eu gwarantu, fel ffordd o wella tryloywder drwy adrodd. Yn y cam hwn, rydym yn ymgynghori ynghylch opsiynau i gymryd camau pellach mewn cysylltiad â chontractau oriau heb eu gwarantu, ynghyd â mesurau eraill i fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â nodi amser teithio ac amser gofal yn glir.

## 2. Y dystiolaeth dros newid a'r egwyddorion allweddol

Mae cyrff rheoleiddio yng Nghymru, yn bennaf Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("AGGCC") a Chyngor Gofal Cymru ("CGC") fel yr arferai fod fel cyrff rheoleiddio yng Nghymru, a hefyd y sector gofal cymdeithasol ehangach, wedi llwyddo i gyflawni llawer iawn o ran yr uchelgais a oedd mewn golwg pan weithredwyd Deddf Safonau Gofal 2000. Roedd y fframwaith o dan y Ddeddf honno, gydag AGGCC a CGC fel y prif gyrff rheoleiddio, yn gweithio'n dda i ni. Rhoddodd sylfaen o safonau i ni – ar gyfer y gweithlu a'n gwasanaethau gofal a chymorth – a heb os mae'r cyhoedd wedi cael eu gwarchod yn well o ganlyniad. Arweiniodd at gysondeb llawer gwell, at amddiffyn pobl yn well rhag cael eu cam-drin a'u hecsbloetio ac at adnabod gwasanaethau sy'n is na'r safon. Rydym wedi llwyddo i wella perfformiad ac rydym yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac arolygu i ddileu safonau gwael. Ond ers hynny rydym wedi cydnabod bod llawer o bethau wedi newid yn y sector, ac o'i amgylch, a bod angen gofalu nad yw ein trefniadau rheoleiddio'n dyddio a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Felly mae ein gwaith o ddiwygio'r system o reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol o dan Ddeddf 2016 yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

- Ymateb i ddiwygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
- Sicrhau bod dinasyddion wrth galon y gofal a'r cymorth;
- Datblygu dull cydlynol a chyson o wneud pethau yng Nghymru;
- Mynd i'r afael â methiannau gan ddarparwyr; ac
- Ymateb i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n codi am safon y gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae gan y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ran fawr i'w chwarae er mwyn gweithredu a datblygu'r diwygio hwn.

[5] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation_doc_files/160621-annex-b-cy.pdf

- Mae'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad hwn yn deillio o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y gweithlu gofal cartref yn 2016, ac yn ceisio gwahaniaethu rhwng amser teithio ac amser gofal fel ffordd o fynd i'r afael â "byrhau galwadau", lle mae galwadau'n cael eu cwtogi er mwyn hwyluso teithio i'r alwad nesaf, drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu amser teithio ac amser gofal (h.y. gwahaniaethu) wrth drefnu ymweliadau.

- Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn sy'n ymwneud â chontractau oriau heb eu gwarantu (h.y. dim oriau) hefyd wedi deillio o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y gweithlu gofal cartref ac maent yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu ym maes gofal cartref, yn unol â'r pwerau sydd ganddi. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno rheoliadau dan Ddeddf 2016.

- Gwnaethpwyd ein hymrwymiad i gofrestru gweithwyr gofal cartref gyda Gofal Cymdeithasol Cymru wrth graffu ar Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn 2015, ac mae wedi cael ei amlinellu yn dilyn hynny mewn datganiadau ysgrifenedig gan y Gweinidog[6].

- Mae rôl rheolwyr gofal cymdeithasol yn ganolog i'r broses o ddarparu gofal a chymorth o safon uchel. Er hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei hysbysu am heriau sy'n bodoli ers tro mewn cysylltiad â recriwtio rheolwyr gofal cymdeithasol. Mae'r sector wedi sylwi bod anawsterau mawr wrth geisio recriwtio pobl i rolau rheolwyr gofal cymdeithasol yn arwain at lawer o swyddi gweigion yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae'n bosibl bod y nifer anghymesur o reolwyr cartrefi gofal oedolion mewn achosion addasrwydd i ymarfer yn adlewyrchu problemau yn ymwneud â safon rhai o'r rheolwyr sy'n cael eu penodi. O ganlyniad, rydym hefyd yn ceisio defnyddio'r ymgynghoriad hwn i ymgysylltu â'r sector gan edrych ar y materion hyn a nodi atebion posibl.

## 3. Beth yw'r prif broblemau? Ble rydym ni nawr?

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn bryderus ynglŷn â'r trosiant staff uchel yn y gweithlu gofal cartref a goblygiadau hynny o ran safon y gofal a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu. Mae'r dystiolaeth rydym wedi ei chasglu drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, yr ymchwil a gomisiynwyd a'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd, yn ogystal â gwybodaeth anecdotaidd a dderbyniwyd, hefyd wedi dangos bod cyfran uchel iawn o gontractau dim oriau'n cael eu defnyddio yn y gweithlu.

Er mwyn edrych yn fanylach ar y materion hyn, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Brifysgol Fetropolitan Manceinion wneud ymchwil[7] i nodi ffactorau sy'n effeithio ar y gweithlu ac ar safon gofal a chymorth. Amlygodd y dystiolaeth nifer o faterion a oedd yn effeithio ar y gallu i recriwtio a chadw'r gweithlu. Un o'r prif faterion oedd

[6] 12 Tachwedd 2015 - http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/58099798/?lang=cy
http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/domiciliarycare/?skip=1&lang=cy

[7] Ymchwil Prifysgol Fetropolitan Manceinion "Y ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref" – cyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2016
http://llyw.cymru/statistics-and-research/factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers/?skip=1&lang=cy

y defnydd cyffredin o gontractau dim oriau, ynghyd â materion eraill megis cyflog isel, peidio â thalu amser teithio a "byrhau galwadau". Roedd gan bob un o'r rhain oblygiadau, nid yn unig o ran recriwtio a chadw staff, ond hefyd o ran safon gofal a chymorth.

Oherwydd y pryderon hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad[8] ar ystod o gynigion y gallai eu datblygu er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn. Cyhoeddwyd dadansoddiad o ganfyddiadau'r ymgynghoriad yn Nhachwedd 2016 ynghyd â datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog[9] a oedd yn amlinellu sut y bwriadwn helpu i ddarparu gofal o safon drwy wella prosesau recriwtio a chadw'r gweithlu, gan gynnwys cynigion yn ymwneud â chontractau dim oriau, cydymffurfio mwy â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, hyfforddi a datblygu, a chodi statws proffesiynol gweithwyr gofal cartref.

Y brif neges o'r ymgynghoriad hwn oedd bod angen gweithredu mewn sawl ffordd er mwyn gwella'r gallu i recriwtio a chadw staff, gan gynnwys cadarnhau cydymffurfiad â'r gofynion presennol megis yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, gwneud prosesau'n fwy tryloyw – er enghraifft, gwahaniaethu'n glir rhwng amser teithio ac amser galw – a dal i chwilio am gyfleoedd i sefydlu gofal cartref fel gyrfa hirdymor ddeniadol, sy'n cael ei chefnogi ac sy'n rhoi llawer o foddhad.

Roedd y dystiolaeth a gafwyd yn dilyn yr ymgynghoriad hefyd yn tynnu sylw at broblemau real ac ymarferol a ffyrdd o symud ymlaen y mae'n rhaid i ni eu hystyried, er enghraifft y defnydd a wneir o gontractau dim oriau, pa lefel o gymhwyster sy'n briodol ar gyfer cofrestru'r gweithlu, a sut y byddai llwybr gyrfaol yn edrych.

I ddechrau, fel rhan o gam 1 y broses o weithredu Deddf 2016, buom yn ymgynghori ynghylch rheoliadau[10] a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth gyhoeddi faint o'u gweithwyr oedd ar bob math o drefniant contract, a fydd yn cynnwys contractau oriau heb eu gwarantu, fel ffordd o wella tryloywder drwy adrodd. Yma, fel rhan o gam 2 y broses o weithredu'r Ddeddf, rydym yn ymgynghori ar opsiynau i gymryd camau pellach er mwyn dylanwadu ar y defnydd o gontractau oriau heb eu gwarantu mewn gwasanaethau cymorth cartref; amlinellu amser teithio ac amser gofal wrth drefnu cymorth cartref; ac agor cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol GCC er mwyn hwyluso'r broses o gofrestru gweithwyr gofal cartref.

Mae rhagor o waith wedi cael ei wneud yn Llywodraeth Cymru ynghylch contractau oriau heb eu gwarantu, gan gynnwys canllawiau[11] wedi'u datblygu gan y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflogwyr sector cyhoeddus Cymru. Mae'r canllawiau hyn yn nodi disgwyliadau clir yn ymwneud ag arferion holl gyflogwyr y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau nad yw contractau dim oriau'n cael eu defnyddio'n amhriodol. Ar 9 Mawrth 2017, dilynodd Llywodraeth Cymru

[8] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/y-gweithlu-gofal-cartref
[9] 28 Tachwedd 2016 - http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/domiciliarycare/?skip=1&lang=cy
[10] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation_doc_files/160621-annex-b-cy.pdf
[11] http://publicservicesstaffcommission.gov.wales/guidance-and-reports/principles-guidance-appropriate-use-non-guaranteed-hours-arrangements?skip=1&lang=cy

ganllawiau'r Comisiwn drwy lansio Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi[12] yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## 4. Yr ymgynghoriad hwn

Cynlluniwyd yr ymgynghoriad hwn er mwyn profi rheoliad drafft sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref wahaniaethu'n glir rhwng amser teithio ac amser gofal wrth drefnu'r gwasanaethau hynny [Atodiad A]. Mae hefyd yn ymwneud â rheoliad drafft sy'n ceisio cyfyngu ar y defnydd o gontractau oriau heb eu gwarantu mewn gwasanaethau cymorth cartref, er mwyn diogelu safon a pharhad gofal a chymorth a ddarperir [Atodiad B]. Mae'r ddau gynnig hyn yn cysylltu â fersiwn drafft Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2017 a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad[13], yng ngham 2, ar 2 Mai 2017.

Rydym hefyd yn ceisio barn am gynigion i agor cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i'r rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cymorth cartref rheoleiddiedig (h.y. gweithwyr gofal cartref) o 2018 ymlaen a sut y gallwn fynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n ymwneud â recriwtio a chadw rheolwyr gofal cymdeithasol.

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn sail i'n hystyriaeth o'r rheoliadau terfynol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Bwriadwn ddadansoddi eich ymatebion yn yr hydref. Yna byddwn yn ystyried unrhyw newidiadau y mae'n bosibl y bydd eu hangen cyn gwneud y rheoliadau a'u cyflwyno tua diwedd y flwyddyn hon.

Amlinellir y cynigion manwl isod.

## 5. Y cynigion

- **Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu amser teithio ac amser gofal [Atodiad A]**

**Mae'r rhain yn ymwneud â gwasanaethau cymorth cartref yn unig.**

Y dystiolaeth a ddarparwyd gan ymchwil Prifysgol Fetropolitan Manceinion[14], sy'n cael ei chefnogi gan ymatebion i'n hymgynghoriad ni ein hunain[15], oedd bod llawer o weithwyr gofal cartref yn pryderu bod diffyg gwahaniaethu rhwng amser teithio ac amser gofal wrth drefnu'r gofal oedd i'w ddarparu yn cael effaith andwyol ar safon y gofal a'r cymorth a ddarperid. Nodwyd hefyd, mewn llawer o achosion, nad y pellter teithio oedd yr unig fater i'w ystyried, ac y gallai ffactorau

---

[12] http://llyw.cymru/docs/dpsp/publications/valuewales/170502-ethical-cy.pdf

[13] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cam-2-y-broses-o-roi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol-cymru-2016-ar

[14] Ymchwil Prifysgol Fetropolitan Manceinion - Y ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref – cyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2016 http://llyw.cymru/statistics-and-research/factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers/?skip=1&lang=cy

[15] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/y-gweithlu-gofal-cartref

allanol o bob math olygu bod rhaid byrhau galwadau – h.y. traffig adegau prysur ar y ffordd, parcio a digwyddiadau lleol a'r cyfyngiadau sy'n cael eu hachosi gan y rhain weithiau mewn rhai lleoedd. Gallai'r rhain i gyd gyfrannu tuag at ostyngiad yn safon y gofal a'r cymorth a ddarperir i unigolion.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn rydym yn cynnig rheoleiddio, gan ddefnyddio pwerau yn adran 27 o Ddeddf 2016, i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gynnal systemau sy'n amlinellu (h.y. gwahaniaethu) amser teithio, amser a neilltuwyd ar gyfer seibiant gorffwys (os yw'n berthnasol) ac amser gofal wrth drefnu ymweliadau cymorth cartref. Bydd angen caniatáu digon o amser teithio ar gyfer amgylchiadau perthnasol e.e. traffig ar adegau prysur ar y ffordd, parcio, digwyddiadau lleol a chyfyngiadau eraill. Mae'r rheoliad hefyd yn nodi bod rhaid cadw cofnod o'r union amser y mae pob gweithiwr gofal cartref yn ei dreulio yn teithio, yn ymweld ac yn cymryd seibiant gorffwys yn ystod y diwrnod, a darparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r rheoliad.

Bydd hyn yn annog mwy o dryloywder, fel bod modd cymryd camau priodol i sicrhau nad yw amser teithio rhwng ymweliadau yn golygu llai o amser gofal. Dylai'r cynnig hwn helpu i fynd i'r afael â "byrhau galwadau" lle mae ymweliadau'n cael eu cwtogi gan nad yw'r rotas wedi cael eu cynllunio'n ddigon da, a gan nad oes digon o amser wedi'i neilltuo ar gyfer teithio at ddefnyddwyr gwasanaeth a darparu gofal a chymorth.

- **Rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gynnig dewis o drefniadau contract eraill i weithwyr gofal cartref ar gontractau oriau heb eu gwarantu [Atodiad B]**

**Mae'r rhain yn ymwneud â gwasanaethau cymorth cartref yn unig.**

Mae tystiolaeth a gasglwyd drwy ymchwil Prifysgol Fetropolitan Manceinion[16] a'n hymgynghoriad ni ein hunain[17] yn dangos bod nifer fawr o weithwyr gofal cartref yn cael eu cyflogi drwy gontractau dim oriau. Mae cyfran lawer uwch o'r gweithwyr gofal cartref hyn yn cael eu cyflogi ar gontractau dim oriau yn y sector annibynnol nag yn y sector cyhoeddus.

Mae canfyddiadau'r ymchwil a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cysylltiad pendant rhwng nifer y contractau dim oriau a gostyngiad yn safon y gofal, oherwydd problemau yn ymwneud â dilyniant gofal a chymorth, a chyfathrebu rhwng gweithwyr a'u cleientiaid.

Er hyn, roedd rhai o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ofal cartref yn awgrymu y gallai cyfyngu ar y defnydd o gontractau dim oriau danseilio hyfywedd gwasanaethau gofal cartref sy'n cael eu darparu mewn ymateb i brosesau comisiynu cyffredin "amser a thasg". Gall trefniadau contractio o'r fath arwain at amrywiadau dyddiol yn lefel y gwasanaeth sydd ei angen. O ganlyniad, mae darparwyr yn aml yn defnyddio contractau oriau heb eu gwarantu i gyflogi

[16] Ymchwil Prifysgol Fetropolitan Manceinion - Y ffactorau sy'n effeithio ar y gwaith o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cartref – cyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2016 http://llyw.cymru/statistics-and-research/factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers/?skip=1&lang=cy
[17] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/y-gweithlu-gofal-cartref

gweithwyr, gan ei bod yn haws iddynt amrywio'r oriau a weithir i gyfateb i'r gwasanaeth sydd ei angen. Rydym yn ymwybodol bod y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn gweithio gyda chomisiynwyr, darparwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr er mwyn datblygu pecyn cymorth a fydd yn newid y broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau cymorth cartref gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau yn hytrach na'r dull "amser a thasg".

Mae'n bosibl y gallai'r newid hwn i'r broses gomisiynu, i fod yn un sy'n canolbwyntio mwy ar anghenion unigolion, arwain at leihad "naturiol" yn y defnydd o gontractau oriau heb eu gwarantu i staff wrth i'r defnydd o gontractau "amser a thasg" leihau. Bydd mwy o gydweithio rhwng pob partner wrth ddatblygu gwasanaethau yn arwain at fwy o eglurder ynghylch union nifer yr oriau o wasanaeth y bydd ar gontractau eu hangen ac, o ganlyniad, yn gwella sefydlogrwydd busnes i ddarparwyr ac yn rhoi mwy o sicrwydd swyddi i'w staff. Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru'n dal yn bryderus bod angen gwneud mwy i sicrhau ein bod yn hybu newid yn y diwylliant sy'n ymwneud â defnyddio contractau oriau heb eu gwarantu. Rydym yn deall bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng ein gweithredoedd a'r pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid y gallai defnyddio deddfwriaeth yn y maes hwn danseilio hyfywedd gwasanaethau cymorth cartref, os nad yw'r newidiadau arfaethedig i'r broses gomisiynu wedi cael amser i gael effaith.

Rydym yn cynnig rheoleiddio, gan ddefnyddio pwerau dan adran 27 o Ddeddf 2016, i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref gynnig y dewis o symud ymlaen i drefniadau contract amgen i weithwyr ar gontractau oriau heb eu gwarantu ar ôl cyfnod o gyflogaeth barhaus. Mae dull gweithredu'r rheoliad drafft yn debyg i ganllawiau'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus[18]. Maent yn berthnasol i wasanaethau cymorth cartref yn unig, gan fod y dystiolaeth yn dangos mai yn y maes gwasanaeth hwn y mae'r defnydd presennol o gontractau oriau heb eu gwarantu (dim oriau) yn cael effaith andwyol ar ddilyniant ac, o ganlyniad, ar safon y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r rheoliad drafft yn nodi bod yn rhaid i'r cyflogwr gynnig gwahanol fathau o gontractau i'r gweithiwr, gan gynnwys contract isafswm oriau yn seiliedig ar nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd cyn hynny, os yw'r gweithiwr wedi gweithio oriau rheolaidd yn y cyfnod penodol blaenorol. Mae'r gofyniad hwn yn seiliedig ar angen parhaus i weithio'r oriau ac ar berfformiad boddhaol ar ran y gweithiwr yn ystod y cyfnod blaenorol. Byddai hefyd yn ofynnol i'r cyflogwr gynnig contract isafswm oriau ar gyfer nifer llai o oriau na nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd cyn hyn neu gontract oriau heb eu gwarantu parhaus, gan ei bod yn bosibl y bydd yn well gan rai gweithwyr yr opsiynau hyn.

Bwriedir i'r cynnig hwn weithredu ochr yn ochr â'r fersiwn drafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) 2017[19] – yr ymgynghorwyd arno yng ngham 1 y broses o weithredu – a oedd yn amlinellu'r angen am dryloywder yn y broses adrodd flynyddol. Mae'r Rheoliadau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gofnodi y mathau o drefniadau contract y mae staff wedi eu cyflogi arnynt, a nifer y staff a gyflogir ar bob math o gontract, fel rhan o'u datganiad blynyddol. Mae'r cynnig hefyd yn adeiladu ar y

[18] http://publicservicesstaffcommission.gov.wales/guidance-and-reports/principles-guidance-appropriate-use-non-guaranteed-hours-arrangements?skip=1&lang=cy
[19] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/sites/default/files/consultation_doc_files/160621-annex-b-cy.pdf

canllawiau a baratowyd gan y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus[20] a Gwerth Cymru[21] ynghylch defnyddio oriau heb eu gwarantu. Gyda'i gilydd, y nod yw gwella ansawdd a dilyniant y gofal a'r cymorth a dderbynnir gan unigolion yn eu cartrefi eu hunain.

- **Ehangu cofrestr gweithwyr gofal cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi mewn gwasanaethau cymorth cartref (h.y. gweithwyr gofal cartref) o 2018 ymlaen**

**Mae hyn yn ymwneud â gwasanaethau cymorth cartref yn unig.**

Mae gwneud cofrestru gweithwyr gofal cartref yn orfodol yn ymateb i gefnogaeth gan y sector i'r syniad o ymestyn cofrestru ar draws y gweithlu a'r bwriad yw rhoi mwy o sicrwydd i'r cyhoedd, helpu i wneud y gweithlu'n fwy proffesiynol ac yn y pen draw gwella safonau gofal a chymorth.

Mae'r diffiniad a gynigir yn cynnwys unrhyw weithwyr gofal cartref sy'n gweithio mewn gwasanaethau cymorth cartref rheoleiddiedig, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan wasanaeth rheoleiddiedig a'r rhai sy'n cael eu cyflogi gan wasanaeth cofrestredig, megis asiantaeth a staff banc. Ni fwriedir ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n darparu gofal a chymorth fel unigolion, heb fod yn gysylltiedig ag asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi, megis cynorthwywyr personol, gofrestru.

Mae angen i'r broses o ehangu cofrestru i'r grŵp gweithlu newydd hwn gael ei rhaglennu'n briodol fel bod digon o amser i weithwyr ymgyfarwyddo a chydymffurfio â'r gofynion cofrestru, gan gynnwys y safonau y bydd angen iddynt eu bodloni a'r cymwysterau y bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth ohonynt neu eu hennill. Yn gysylltiedig â hyn, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgynghori yn ystod yr haf ynghylch newidiadau i'w rheolau yn ymwneud â'r cymwysterau a'r ffioedd sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cartref. Mae angen digon o amser hefyd fel bod modd ychwanegu gweithwyr at y gofrestr dros gyfnod realistig, er mwyn osgoi rhoi gormod o faich ar systemau gweinyddol rheoleiddiwr y gweithlu. Oherwydd hyn mae angen cynllunio cyfnod arwain rhesymol a theimlwn y bydd ein cynnig ni, o 2 flynedd, yn rhoi digon o amser.

Bydd angen diwygio Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016[22] er mwyn galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i ganiatáu i weithwyr gofal cartref ymuno â chofrestr y gweithlu o 2018 ymlaen, â chofrestru gorfodol yn dod i rym o 2020 ymlaen. Bydd rheoliadau ychwanegol, dan adran 27 o Ddeddf 2016, yn cael eu datblygu i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn cyfnod penodol o amser.

---

[20] Canllawiau'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus: "Egwyddorion a chanllawiau ar ddefnyddio trefniadau oriau heb sicrwydd yn briodol o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus datganoledig yng Nghymru" cyhoeddwyd yn 2016 http://publicservicesstaffcommission.gov.wales/guidance-and-reports/principles-guidance-appropriate-use-non-guaranteed-hours-arrangements?skip=1&lang=cy

[21] Canllawiau Gwerth Cymru: "Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi" cyhoeddwyd yn 2016 http://llyw.cymru/docs/dpsp/publications/valuewales/170502-ethical-cy.pdf

[22] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/1235/pdfs/wsi_20161235_mi.pdf

Credwn y bydd yr amserlen hon yn rhoi digon o amser i weithwyr gofal cartref gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn deall y broses a beth y bydd hyn yn ei olygu iddynt hwy, ac y bydd yn eu galluogi i gofrestru gyda'r rheoleiddiwr erbyn y dyddiad terfynol gorfodol o 2020.

- **Cyflenwi Rheolwyr**

**Mae hyn yn ymwneud â rheolwyr gofal cymdeithasol yn y sector cyfan.**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth gofal cymdeithasol dda yn hollbwysig er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru'n nodi y dylai rheolwyr gofal plant preswyl, rheolwyr cartrefi gofal oedolion a rheolwyr gwasanaethau cymorth cartref gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r gofynion cofrestru'n cynnwys cymwysterau a enillir drwy ddysgu galwedigaethol. Mae Llywodraeth Cymru a'r rheoleiddwyr yn ymwybodol o'r her sy'n gysylltiedig â recriwtio rheolwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr anawsterau wrth geisio cael y cymwysterau gofynnol a maint trosiant staff yn y rhan hon o'r gweithlu. Mae 14% o'r gwasanaethau rheoleiddiedig yn gweithredu heb reolwr gofal cymdeithasol cofrestredig ar hyn o bryd. Cytunir yn gyffredinol bod angen syniadau newydd er mwyn rhoi sylw i broblem cyflenwi rheolwyr gofal cymdeithasol.

Hoffem felly glywed beth yw eich barn chi ynglŷn â maint yr her hon a beth y gellir ei wneud er mwyn ei chyflawni.

## Atodiad A - Amlinellu amser teithio ac amser gofal

(1) Nid yw'r rheoliad hwn ond yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth cymorth cartref y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i'w ddarparu.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo–

(a) llunio amserlen ymweliadau mewn cysylltiad â phob gweithiwr gofal cartref sy'n gweithio yn y gwasanaeth; a

(b) darparu copi o'r amserlen ymweliadau berthnasol i'r gweithiwr gofal cartref y mae'r amserlen honno yn ymwneud ag ef.

(3) Rhaid i'r amserlen ymweliadau amlinellu'r amser a neilltuir ar gyfer amser teithio, yr amser a neilltuir ar gyfer pob ymweliad ac (os yw'n gymwys) yr amser a neilltuir ar gyfer seibiannau gorffwys.

(4) Rhaid i'r amser a neilltuir ar gyfer amser teithio fod yn ddigonol gan roi sylw i–

(a) y pellter rhwng lleoliad un ymweliad sydd wedi ei amserlennu a'r ymweliad nesaf sydd wedi ei amserlennu; a

(b) unrhyw ffactorau eraill y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt effeithio ar amser teithio, megis tagfeydd traffig ac argaeledd cyfleusterau parcio yn lleoliad yr ymweliadau sydd wedi eu hamserlennu.

(5) Rhaid i'r amser a neilltuir ar gyfer pob ymweliad–

(a) bod yn ddigonol i alluogi i ofal a chymorth gael eu darparu i'r unigolyn yn unol â'i gynllun personol; a

(b) peidio â bod yn llai na 30 munud oni bai y cydymffurfir â naill ai amod A, B neu C, fel y'u disgrifir yn adran 8 o'r Ddeddf.

(6) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r amser a dreulir gan bob gweithiwr gofal cartref ar amser teithio, ymweliadau a seibiannau gorffwys.

(7) At ddibenion y rheoliad hwn–

mae "amser teithio" ("*travel time*") yn cynnwys yr amser a dreulir wrth deithio rhwng lleoliad un ymweliad sydd wedi ei amserlennu a lleoliad yr ymweliad nesaf sydd wedi ei amserlennu ond nid yw'n cynnwys unrhyw amser a dreulir wrth deithio o gartref y gweithiwr gofal cartref i leoliad yr ymweliad cyntaf sydd wedi ei amserlennu neu unrhyw amser a dreulir wrth deithio o leoliad yr ymweliad olaf sydd wedi ei amserlennu i gartref y gweithiwr gofal cartref;

ystyr "amserlen ymweliadau" ("*schedule of visits*") yw amserlen o'r ymweliadau y mae'n ofynnol i weithiwr gofal cartref eu cyflawni yn ystod diwrnod neu wythnos;

ystyr "gweithiwr gofal cartref" ("*domiciliary care worker*") yw person sy'n gweithio yn y gwasanaeth ac sy'n darparu gofal a chymorth i unigolyn ac mae'n cynnwys person a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth a pherson a gymerir ymlaen gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau;

ystyr "ymweliad" ("*visit*") yw ymweliad ag unigolyn at ddiben darparu gwasanaeth cymorth cartref.

## Atodiad B - Cynnig y dewis o drefniadau contractiol eraill i weithwyr gofal cartref sydd ar gontractau oriau heb eu gwarantu

(1) Nid yw'r rheoliad hwn ond yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â darparu gwasanaeth cymorth cartref y mae'r darparwr wedi ei gofrestru i'w ddarparu.

(2) Os yw'r amodau ym mharagraff (3) wedi eu bodloni, rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo gynnig i weithiwr gofal cartref y dewis o barhau i gael ei gyflogi o dan unrhyw un neu ragor o'r mathau a ganlyn o drefniant contractiol—

(a) contract oriau heb eu gwarantu pellach;

(b) contract cyflogaeth pan fo nifer yr oriau y mae'n ofynnol iddynt gael eu gweithio yr wythnos o leiaf yn gyfwerth â nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd yr wythnos yn ystod y tri mis blaenorol;

(c) contract cyflogaeth pan fo nifer yr oriau y mae'n ofynnol iddynt gael eu gweithio yr wythnos yn llai na nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd yr wythnos yn ystod y tri mis blaenorol.

Ond nid yw'r gofyniad hwn yn atal y darparwr gwasanaeth rhag cyflogi gweithiwr gofal cartref ar unrhyw fath arall o drefniant contractiol y cytunwyd arno rhwng y darparwr a'r gweithiwr.

(3) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw—

(a) bod y gweithiwr gofal cartref wedi ei gyflogi gan y darparwr gwasanaeth o dan gontract oriau heb eu gwarantu ar gyfer y cyfnod cymhwysol,

(b) bod y gweithiwr gofal cartref wedi gweithio oriau rheolaidd yn ystod y tri mis cyn diwedd y cyfnod cymhwysol,

(c) bod y darparwr wedi penderfynu bod angen o hyd i'r oriau gael eu gweithio ar sail barhaus, a

(d) bod y gweithiwr gofal cartref wedi perfformio'n foddhaol yn ystod y cyfnod cymhwysol.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn—

mae i'r termau "contract cyflogaeth", "cyflogwr", "cyflogaeth", a "cael ei gyflogi"/ "wedi ei gyflogi" yr un ystyron â "contract of employment", "employer", "employment" ac "employed" yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996[23];

ystyr "contract oriau heb eu gwarantu" ("*non-guaranteed hours contract*") yw contract cyflogaeth neu gontract gweithiwr arall—

(a) y mae'r ymgymeriad i wneud gwaith neu i gyflawni gwasanaethau odano yn ymgymeriad i wneud hynny ar yr amod bod y cyflogwr yn gwneud gwaith neu wasanaethau ar gael i'r gweithiwr, a

(b) nad oes unrhyw sicrwydd odano y bydd unrhyw waith o'r fath neu unrhyw wasanaethau o'r fath yn cael eu gwneud ar gael i'r gweithiwr.

---

[23] 1996 t. 18.

At ddiben y diffiniad hwn, mae cyflogwr yn gwneud gwaith neu wasanaethau ar gael i weithiwr os yw'r cyflogwr yn gofyn i'r gweithiwr wneud y gwaith neu gyflawni'r gwasanaethau neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny;

"y cyfnod cymhwysol" ("*the qualifying period*") yw—

(a) mewn unrhyw achos pan fo'r gweithiwr wedi dechrau cyflogaeth ar ôl y dyddiad perthnasol, y cyfnod o dri mis o ddyddiad dechrau'r gyflogaeth;

(a) mewn unrhyw achos pan ddechreuodd y gweithiwr gyflogaeth cyn y dyddiad perthnasol, cyfnod y gyflogaeth honno sy'n dod i ben gyda'r dyddiad cychwyn;

(c) mewn unrhyw achos pan fo'r gweithiwr wedi, yn flaenorol, gael cynnig y dewis o drefniant contractiol arall yn unol â gofynion y rheoliad hwn ac wedi dewis aros ar gontract oriau heb eu gwarantu, y cyfnod o dri mis o ddyddiad gwneud unrhyw ddewis o'r fath.

At ddibenion y diffiniad hwn—

"y dyddiad cychwyn" ("*the commencement date*") yw'r dyddiad y daw'r rheoliad hwn i rym;

"y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw'r dyddiad sy'n dod tri mis cyn y dyddiad cychwyn;

mae i "gweithiwr" yr un ystyr â "worker" yn adran 230 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, ac eithrio nad yw gweithiwr asiantaeth yn weithiwr at ddiben y rheoliad hwn. Mae unrhyw gyfeiriad at gontract gweithiwr i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "gweithiwr gofal cartref" ("*domiciliary care worker*") yw person sy'n darparu gofal a chymorth i unigolion fel rhan o wasanaeth cymorth cartref.

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (lle bo'n berthnasol): | |
| Ebost / Rhif ffôn: | |
| Eich cyfeiriad: | |

**Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch y blwch os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw:** ☐

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rheoliad a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu amser teithio ac amser gofal [Atodiad A]** | | | |
| **C.1. A yw'r gofynion yn rhai y gellir eu rhoi ar waith yn ymarferol? Os nad ydynt, sut y gellid eu haddasu?** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☒ | Tueddu i anghytuno ☒ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rheoliad a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu amser teithio ac amser gofal [Atodiad A]** | | | |
| **C.2 A fydd y gofynion yn arwain at dryloywder o ran amser gofal a theithio?** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **Rheoliad a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu amser teithio ac amser gofal [Atodiad A]** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.3 A fydd y gofynion yn helpu i atal amser gofal rhag cael ei erydu gan amser teithio rhwng ymweliadau?** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **Rheoliad a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu amser teithio ac amser gofal [Atodiad A]** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.4 Mae arferion comisiynu eisoes yn dechrau newid i ganolbwyntio ar ddeilliannau i'r unigolyn. A ddylent hefyd roi pwyslais ar fwy o gydweithio rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaeth er mwyn cytuno beth yw amser teithio digonol?** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth amlinellu amser teithio ac amser gofal [Atodiad A]** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.5 A fyddai gofyn i awdurdodau lleol roi sylw i ystyriaethau lleol perthnasol (h.y. cyfyngiadau parcio ac ati) fel rhan o'r broses gomisiynu yn helpu darparwyr gwasanaethau cymorth cartref i gynllunio ymweliadau'n fwy effeithiol?** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |

| |
|---|
| Eglurwch os gwelwch yn dda: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rheoliad yn ymwneud â Chontractau Oriau heb eu Gwarantu ar gyfer gweithwyr gofal cartref [Atodiad B]** | | | |
| **C.6 A fydd y gofyniad i gyflogwyr ddarparu dewis o gontractau oriau heb eu gwarantu neu oriau sefydlog i staff, yn seiliedig ar nifer cyfartalog yr oriau a weithiwyd yn ystod y 3 mis blaenorol (neu lai na'r cyfartaledd, pe bai'n well gan y gweithiwr hynny), yn helpu gwasanaethau cymorth cartref i symud tuag at drefniadau mwy sefydlog ar gyfer darparu gofal a chymorth?** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| |
|---|
| **Rheoliad yn ymwneud â Chontractau Oriau heb eu Gwarantu ar gyfer gweithwyr gofal cartref [Atodiad B]** |
| **C7. A fyddai'n briodol ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnig y dewis hwn o gontractau ar ôl y 3 mis cyntaf o gyflogaeth? Os na fyddai, beth fyddai'n gyfnod priodol?** |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: |

| |
|---|
| **Rheoliad yn ymwneud â Chontractau Oriau heb eu Gwarantu ar gyfer gweithwyr gofal cartref [Atodiad B]** |
| **C8. A fyddai'n briodol ac yn ymarferol i'w gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnig adolygiadau rheolaidd o drefniadau contract oriau heb eu gwarantu, bob 3 mis? Os na fyddai, beth fyddai'n gyfnod priodol ar gyfer adolygu?** |

| |
|---|
| Eglurwch os gwelwch yn dda: |

| **Rheoliad ynghylch Contractau Oriau heb eu Gwarantu i weithwyr gofal cartref [Atodiad B]** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.9 Yn dilyn pob cynnig, a ddylai fod yn ofynnol i gyflogwyr gofnodi'r dewis a wneir gan weithwyr, i ddangos bod cynigion o'r fath wedi cael eu gwneud lle bo'n briodol?** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **Agor y gofrestr i weithwyr gofal cartref yn 2018** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.10 A ydych yn meddwl bod 2 flynedd o amser arwain o 2018 ymlaen i bobl ymuno â'r gofrestr yn wirfoddol yn ddigon i gwblhau'r cofrestru gorfodol ar gyfer gweithwyr gofal cartref erbyn 1 Ebrill 2020?**<br><br>Sylwer y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgynghori ynghylch y ffioedd cofrestru a'r cymwysterau sy'n ofynnol. | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **Cyflenwi rheolwyr gofal cymdeithasol** |
|---|
| **C.11 A ydych yn credu bod cyflenwi rheolwyr gofal cymdeithasol a sicrhau bod rheolwyr gofal cymdeithasol ar gael yn her? h.y.** dod o hyd i ddigon o'r bobl iawn ar gyfer y rolau hyn a'u cadw yn eu rolau |

| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
|---|---|---|---|
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **Cyflenwi rheolwyr gofal cymdeithasol** |
|---|
| **C.12 Os ydyw, sut fyddech chi'n awgrymu ein bod yn datrys hyn?** |
| Eglurwch eich awgrymiadau ar gyfer (1) dod o hyd i'r bobl iawn (2) dod o hyd i'r nifer iawn o bobl (3) cadw rheolwyr gofal cymdeithasol: |

| **Cwestiynau Eraill** |
|---|
| Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Nodweddion gwarchodedig yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.<br><br>**C.13 A ydych yn meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?**<br><br>**C.14 A ydych yn meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?** |

Hoffem wybod beth yw eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, ac yn fwyaf penodol ar

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**C.15 Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

**C.16 Eglurwch hefyd sut rydych yn credu y gellid llunio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:**

**i) cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a**
**ii) sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg a'r gofyniad i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni amdanynt os gwelwch yn dda.**